# CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

**Adroddiad i'r:** **Cyngor**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **26 Hydref 2023**

**Teitl:** **Protocol ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliad Awdurdodau Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd**

**Pwrpas yr adroddiad:** **I'r Cyngor ystyried a chytuno'r protocol**

**Er:** **Penderfyniad**

**Portffolio Cabinet ac Aelod Cabinet:**
**Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth**

**Cyflwyniad**
Crëwyd y protocol drafft hwn, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Chanllawiau Statudol Drafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru ac mae'n adlewyrchiad o'r arfer a wneir ar hyn o bryd gan Gyngor Sir Ceredigion. Caiff ei amlinellu ym mharagraffau 15.48 i 15.51 o'r canllawiau:

*15.48 Mae Deddf 2021 yn ei gwneud yn ofynnol bod "trefniadau" yn cael eu gwneud gan brif gynghorau ar gyfer darlledu cyfarfodydd, ac ar gyfer galw cyfarfodydd sy'n cynnwys cyfranogwyr mewn lleoliadau lluosog. Bydd angen i'r trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd hyn gael eu hysgrifennu yn y fath fodd fel eu bod yn integreiddio dull gweithredu trefniadau aml-leoliad awdurdod perthnasol â'i gydymffurfiaeth ehangach â'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys y gofynion newydd ar gyfer darlledu sain ac (mewn rhai amgylchiadau) darlledu fideo cyfarfodydd o'r fath.*

*15.49 Er bod gofyniad i brif gynghorau ddarlledu cyfarfodydd penodol, a ddaeth i rym fis Mai 2022, roedd llawer o brif gynghorau eisoes yn darlledu nifer o'u cyfarfodydd, felly rydym yn awgrymu bod y trefniadau hyn yn ffurfio rhan integredig o Gyfansoddiad awdurdod. Ar gyfer prif gynghorau, gallai trefniadau o'r fath fod yn destun goruchwylio gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.*

*15.50 Y rheswm dros gynnwys y trefniadau hyn mewn dogfen gyfansoddiadol yw eu bod yn nodi sut y mae'r awdurdod yn cael ei redeg, ac y bydd angen eu cynnwys ar ryw ffurf yn rheolau gweithdrefnau pwyllgorau a chyrff ffurfiol eraill.*

*15.51 Bydd angen i awdurdodau perthnasol ddatblygu'r trefniadau hyn drostynt eu hunain – nid oes un set o reolau sy'n nodi'n fanwl sut drefniadau y dylai'r rhain fod. Mae'r canllawiau hyn yn nodi fframwaith y gall awdurdodau perthnasol ei*

*ddefnyddio i ystyried eu hopsiynau a phenderfynu beth sy'n iawn iddynt hwy a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.*

Mae'r protocol hwn yn disodli'r protocol blaenorol ar gyfer presenoldeb o bell mewn cyfarfodydd, a ddatblygwyd mewn ymateb i Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020.

Mae'r egwyddorion sylfaenol y bydd ymddygiad yn cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau a bod uniondeb a diogelwch unrhyw wybodaeth gyfrinachol yn cael ei chynnal yn sail i'r Protocol hwn.

**Datblygiad i protocol ddrafft**
Datblygwyd y protocol hwn gyda chefnogaeth a mewnbwn gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2023, argymhellodd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Protocol Drafft ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliadau Awdurdodau Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd. Argymhellodd y Pwyllgor hefyd y dylid darparu hyfforddiant i'r holl Aelodau mewn perthynas â'r protocol.

Rhannwyd y protocol drafft gydag Aelodau Gweithgor y Cyfansoddiad yn ystod ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi 2023. Argymhellodd Gweithgor y Cyfansoddiad ddileu'r gofyniad i hysbysu Gwasanaethau Democrataidd bythefnos cyn teithio dramor gan eu bod yn teimlo bod 2 wythnos yn rhy hir, ac efallai y bydd angen iddynt deithio ar fyr rybudd. Mae'r cyfeiriad at bythefnos bellach wedi'i dynnu o'r protocol drafft.

**Diwygiadau i'r protocol blaenorol**
Yn ogystal â diwygiadau sy'n cyfeirio at y ddeddfwriaeth ddiwygiedig a chanllawiau statudol ac anstatudol Llywodraeth Cymru, mae'r prif newidiadau o'u cymharu â'r protocol blaenorol yn cynnwys:

a) Ychwanegu adran 1: **Penderfynu pa gyfarfodydd y bydd darpariaeth gorfforol yn cael ei gwneud ar eu cyfer ac a fydd yn cael ei chynnal yn gyfan gwbl drwy ddulliau anghysbell;**
b) Ychwanegu adran 2: **Llwyfan Cyfarfodydd**
c) Adran 6: **Gwahoddiad i ymuno â'r cyfarfod o bell** - eglurhad o'r weithdrefn ar gyfer Cynghorwyr / Aelodau o'r cyhoedd
d) Ychwanegu adran 9: **Darlledu Electronig Cyfarfodydd**
e) Ychwanegu adran 13: **Mynychu Cyfarfod tra allan o'r Wlad**
f) Adran 14: **Cadeirio Cyfarfodydd** – newid gan ddisodli'r tabl blaenorol
g) Adran 15: **Pleidleisio** – eglurhad yn y paragraff olaf o'r prosesau lle na all Aelod ddarparu pleidlais ar y cynnig cyntaf
h) Adran 16: **Defnyddio'r system sgwrsio (chat) yn y system feddalwedd** – cynnwys pennawd ar wahân er mwyn eglurder
i) Ychwanegu adran 17: **Cofnod o bresenoldeb**
j) Newid i adran 18: **Datganiadau o ddiddordeb** – eglurder o'r angen i nodi os yw'r datganiad yn un 'personol' neu un 'personol sy'n rhagfarnu', i ddileu'r cyfeiriad at y system sgwrsio, ac i egluro'r broses ar gyfer hysbysiad hwyr o ddiddordeb
k) Ychwanegu adran 22: **Ymddygiad mewn Cyfarfodydd Anghysbell / Hybrid**

l) Ychwanegu adran 23: **Adolygu neu amnewid trefniadau mewn perthynas â Phresenoldeb a Darlledu Electronig cyfarfodydd**
m) Ychwanegu adran 24: **Trefniadau'n ymwneud â Chydbwyllgorau**
n) Dileu adran 1.4: **Ymuno ar y teliffon**

**Camau nesaf**
Yn amodol ar gymeradwyo'r protocol drafft gan y Cyngor, bydd y protocol yn cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor, gan ddisodli'r protocol blaenorol.

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:**
**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os na, esboniwch pam**
Na, nid newid polisi neu strategaeth yw hwn. Pwrpas y ddogfen hon yw nodi'r arfer presennol mewn perthynas â mynychu a darlledu cyfarfodydd, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Crynodeb o'r Asesiad Effaith Integredig:**

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | AMH |
| **Cydweithio:** | AMH |
| **Cynnwys:** | AMH |
| **Atal:** | AMH |
| **Integreiddio:** | AMH |

**Argymhelliad / Argymhellion:**
**Fod y Cyngor yn:**
a) **Cymeradwyo'r Protocol ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliad Awdurdodau Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd**
b) **nodi bod y protocol hwn yn ddisodli'r protocol blaenorol.**

**Rheswm / Rhesymau dros y penderfyniad:**
**Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth**

**Trosolwg a Chraffu:** Amh

**Fframwaith Polisi:** Amh

**Amcanion Llesiant Corfforaethol:** Amh

**Goblygiadau Cyllid a Chaffael:** Amh

**Goblygiadau cyfreithiol:**
Methu cydymffurfio â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Goblygiadau staffio:** Amh

**Goblygiadau eiddo / asedau:** Amh

**Risg(iau):** Amh

**Pwerau Statudol:**
Canllawiau Statudol ac Anstatudol Llywodraeth Cymru ar gyfer Prif Gynghorau yng Nghymru,

Deddf Llywodraeth Leol 2000;
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

**Papurau Cefndir:** Amh

**Atodiadau:**
Protocol ar gyfer Mynychu Cyfarfodydd Aml-leoliad Awdurdodau Lleol a Darllediadau Electronig o Gyfarfodydd

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol:**
Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd

**Swyddog Adrodd:**
Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd

**Dyddiad:**
01/10/2023